

Telerau ac Amodau i ymgeiswyr

Pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig o le ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ffurfir contract. Cyn derbyn y cynnig, rhaid i ymgeiswyr ddeall y telerau a'r amodau isod.

Derbyniadau a chofrestru – polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau

Mae lle ar raglen astudio'n amodol cwblhau prosesau derbyn a chofrestru'r Brifysgol yn llwyddiannus gan yr ymgeisydd.

Mae cynnig lle'n amodol ar y telerau a'r amodau a nodir yn y canlynol:

- (1) y llythyr cynnig;
- (2) gwybodaeth ar wefan y Brifysgol ac yn ei phrosiectws;
- (3) y wybodaeth a geir yn Siarter y Myfyrwyr a Chod Ymddygiad Myfyriwr sydd ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgysylltu-â-myfyrwyr/. Mae'r Siarter Myfyrwyr yn nodi'r cyfrifoldebau sy'n rhwymo'r Brifysgol ac yn ogystal, esbonia'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni wrth astudio yn y Brifysgol. Mae Cod Ymarfer y Myfyrwyr sy'n cyd-fynd â Siarter y Myfyriwr, yn amlinellu sut y disgwylir i fyfyrwyr y Brifysgol ymddwyn.
- (4) Rheoliadau i fyfyrwyr sydd wedi eu crynhoi yn y ddogfen 'Rheoliadau Prifysgol – Canllaw Myfyrwyr': www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadau-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/ a'r Llawlyfr Rhaglen Astudio priodol. Dylai myfyrwyr hefyd gyfeirio at y Llawlyfr Ansawdd Academaidd am fanylion rheoliadau'r Brifysgol, gan gynnwys y rheoliadau asesu sydd ar gael yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/academic-quality-handbook/

Mae'n bwysig bod Ymgeiswyr yn darllen y dogfennau hyn cyn derbyn cynnig ac yn glynu wrth reoliadau'r Brifysgol, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu lle yn ôl neu derfynu cofrestriad maes o law.

I ddod o hyd i Bolisi Derbyniadau'r Brifysgol, ewch i'r tudalennau 'Sut i Ymgeisio' ar wefan y Brifysgol, ac fe'i gwelir yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisïau/

Cynigion

Nodir unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â chynnig lle yn y Brifysgol yn y llythyr cynnig ac yn yr ohebiaeth a gafodd yr ymgeisydd trwy law UCAS (os UCAS oedd yn trafod y cais).

Gall cynnig fod yn amodol neu'n ddiamod. Gall yr amodau fod yn academaidd neu'n anacademaidd. Fel arfer, byddai gofyn i ymgeisydd roi tystiolaeth ei fod wedi llwyddo i gael rhai cymwysterau. Yn aml, ar gyfer amodau anacademaidd, yn aml mae angen i ymgeiswyr fodloni'r gofynion cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer ymuno â rhaglen, a allai gynnwys, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, er enghraifft, sicrhau Datgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu ddarparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan UKVI.

Wrth dderbyn cynnig lle yn bendant, mae'r ymgeiswyr yn cytuno ar bob un o delerau ac amodau'r Brifysgol. Ar ôl derbyn cynnig o le, caiff ymgeiswyr 14 o ddiwrnodau ar gyfer gwrthod eu cynnig os newidiant eu meddwl. Mae ffurflen ganslo ar gael yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/amodau/

Caiff ymgeiswyr y daw eu dewis yswiriant yn Y Drindod Dewi Sant yn ddewis pendant adeg cadarnhau (ar ôl iddynt fod yn aflwyddiannus yn y sefydliad a oedd yn ddewis pendant iddynt) 14 diwrnod i wrthod y lle a gynigiwyd iddynt o ddyddiad y newid. Caiff ymgeiswyr UCAS sydd wedi eu derbyn trwy'r drefn 'glirio' 14 diwrnod i newid eu meddwl ar ôl y dyddiad derbyn. Caiff ymgeiswyr ddewis i'w cais gael ei ryddhau yn ôl i'r drefn glirio neu i'w dynnu'n ôl o'r system UCAS.

Caiff myfyrwyr hefyd 14 diwrnod i newid eu meddwl a dileu eu lle o'r dyddiad y cofrestrant ar eu Rhaglen Astudio heb gael unrhyw gosbau ariannol.

Bodloni telerau'r cynnig

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig lle amodol, yn amodol ar sicrhau cymwysterau penodol, fodloni'r amodau hynny er mwyn sicrhau cynnig diamod o le.

Os na chadarnhawyd lle erbyn diwedd y drydedd wythnos ym mis Awst, dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Tîm Derbyniadau yn y Gofrestrfa yn admissions@uwtsd.ac.uk. Os nad yw'r Tîm Derbyniadau wedi cael canlyniadau arholiadau ymgeisydd, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'r rhain. Dylai ymgeiswyr sydd heb gael eu tystysgrifau cymhwystra erbyn yr amser hwn ddarparu llythyr swyddogol gan yr Ysgol neu'r Coleg sy'n cadarnhau eu canlyniadau.

Mae gofyn i ymgeiswyr fodloni amodau eu cynnig dair wythnos cyn dechrau'r Rhaglen Astudio. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu ymgeiswyr yn ôl neu i ohirio'r cynnig o le tan y flwyddyn olynol os nad yw'r amodau cynnig wedi eu bodloni erbyn yr amser hwn.

Ymgeiswyr UCAS

Caiff ymgeiswyr sy'n bodloni amodau eu cynnig ac sy'n rhagori arnynt yr hawl i geisio lle ar raglen arall yn Y Drindod Dewi Sant, neu sefydliad arall trwy'r broses Addasu. Mae manylion pellach ar gael yn: www.ucas.com/adjustment. Mae'r broses addasu'n berthnasol yn unig i ymgeiswyr ôl-raddedig UCAS.

Dylai ymgeiswyr, sy'n gwybod eu bod wedi methu â bodloni amodau eu cynnig ac y mae statws eu cynnig yn parhau'n amodol, sicrhau bod Tîm Derbyniadau'r Brifysgol wedi cael pob un o'u canlyniadau. Unwaith y bydd y rhain wedi dod i law, bydd y Brifysgol yn ystyried a ddylid cynnig lle i'r ymgeisydd ar raglen amgen yn y cyfnod cadarnhau. Nid yw'r Brifysgol yn gwarantu cynnig rhaglen amgen i fyfyrwr nad yw wedi ei dderbyn ar ei raglen dewis cyntaf. Os cynigir cwrs amgen gan y Brifysgol i'r ymgeisydd, gallant dderbyn neu wrthod y cynnig. Caiff cais ymgeiswyr sy'n penderfynu gwrthod y cynnig naill ai ei ryddhau i'r drefn glirio (os yw'n ddilys) neu ei dynnu'n ôl yn llwyr o'r system UCAS (os yw'n briodol).

Newidiadau yn nhelerau'r cynnig

Oni bai fod hynny'n ofynnol o dan y gyfraith neu er mwyn bodloni gofyniad newydd yn y diwydiant, ni newidir telerau'r cynnig. Os bydd angen newid telerau'r cynnig hwn, yr hyn nad yw'n debygol iawn, caiff yr ymgeisydd wybod yn ysgrifenedig a gofynnir iddo gytuno i'r newidiadau.

Rhaglenni Astudio sy'n gallu newid

Rhaid cymeradwyo pob Rhaglen Astudio newydd yn y Brifysgol yn ffurfiol a'i dilysu cyn ei darparu. Mae'r prosesau ar gyfer cymeradwyo a dilysu rhaglenni yn bodoli i sicrhau bod rhaglenni yn gyson â Chynlluniau Strategol y Brifysgol a'r Gyfadran, o safon academiaidd briodol a bod digon o adnoddau ar gael ar eu cyfer.

Os caiff rhaglen ei newid, caiff yr ymgeisydd wybod yn ysgrifenedig pryd y dilyswyd y rhaglen yn ffurfiol a chaiff hefyd wybod am unrhyw newidiadau a wnaed yn y rhaglen. Os na ddilyswyd y rhaglen neu os penderfyna ymgeisydd dynnu ei ddewis yn ôl o ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r rhaglen yn ystod y broses ddilysu, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddod o hyd i le i'r ymgeisydd ar raglen arall.

Newidiadau yn y Rhaglen Astudio

Mae'r lle astudio yn y Brifysgol a gynigir i chi'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Astudio y gellir ei gweld ar dudalennau cwrs ein gwefan ni, fel y mae ar ddyddiad derbyn eich cynnig. Yma caiff ymgeiswyr wybodaeth megis y modylau craidd ac arwydd, o bosibl, o fodylau opsiynol.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid gwybodaeth rhaglenni (gan gynnwys disgrifiad rhaglenni, cynnwys, modd a/neu leoliad darparu amserlen a/neu amserlen), gwasanaethau, cyfleusterau a/neu Siarter Frenhinol y Brifysgol, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a Chanllaw Academiaidd. Ymhlith y rhesymau dros newidiadau mae'r canlynol, ond heb eu cyfyngu i'r rhain:

- er mwyn bodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoleiddiol;
- er mwyn ymateb i arfer da yn y sector neu brosesau gwella ansawdd;
- er mwyn cadw rhaglenni'n gyfoes trwy ddiweddarau ymarferion neu feysydd astudio;
- oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, megis aelod allweddol o'r staff yn gadael neu'n methu â dysgu (pan fo'r rhaglen yn ddibynnol ar arbenigedd y person hwnnw);
- gwella Ystadau a Chyfleusterau'r Brifysgol ac adleoli arfaethedig Ysgolion;
- Amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol gan gynnwys gweithredu diwydiannol, tywydd garw, tân, anhrefn sifil, anghydfod gwleidyddol neu bryder difrifol am drosglwyddo afiechyd difrifol sy'n gwneud y rhaglen yn anniogel i'w darparu.

Efallai y bydd angen newid rhaglenni a modylau os na sicrhawyd y lleiafswm o fyfyrwyr y mae eu hangen i sicrhau profiad addysgol da neu brofiad da i'r myfyrwyr. Sylwer: o dan rai amgylchiadau eithriadol, gellir tynnu'r rhaglenni yn ôl (cyn y dechrau) am y rheswm hwn.

Os gwneir newidiadau yn eich rhaglenni ar ôl i chi dderbyn y cynnig hwn, bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i roi gwybod i chi am y newidiadau hynny.

Os caiff y rhaglen ei thynnu yn ôl neu os gwneir newidiadau sylfaenol yn y rhaglen ar ôl i chi dderbyn y cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar a phan fo'n briodol, gynnig rhaglen amgen addas yn y Brifysgol. Cewch chi hefyd yr hawl i dynnu eich rhaglen yn ôl o'r rhaglen a gwneud cais am ad-daliad neu ad-daliad rhannol o unrhyw ffioedd dysgu a dalwyd gennych.

Darparu gwybodaeth gywir gan yr ymgeisydd

Dylai'r ymgeiswyr sicrhau bod y wybodaeth a ddarparant i'r Brifysgol yn wir, yn gyflawn ac yn gywir. Dylai'r ymgeiswyr gysylltu â'r tîm Derbyniadau yn y Gofrestrfa os bydd angen iddynt roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newid yn eu manylion personol, megis eu henw neu eu cyfeiriad post. Gellir cysylltu â'r tîm Derbyniadau yn: admissions@uwtsd.ac.uk.

Ar ôl cofrestru'n fyfyrwyr, dylid cyfleu unrhyw newid yn eu manylion personol i'r Gofrestrfa yn: registry@uwtsd.ac.uk.

Os gwelir bod cais yn cynnwys gwybodaeth anwir adeg ei wirio neu wedyn, ceidw'r Brifysgol yr hawl i beidio â chofrestru'r ymgeisydd neu i ofyn i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r rhaglen astudio. Bydd yr un canlyniadau'n berthnasol pan fydd ymgeisydd wedi methu â datgelu unrhyw wybodaeth faterol a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad i gynnig lle, megis gwybodaeth am euogfarn droseddol berthnasol nas treuliyd, a amlinellir yn yr adran ar euogfarnau troseddol isod.

Ceir gwybodaeth bellach ym mholisi Derbyniadau Prifysgol ac i'w weld ewch i: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau/

Gofynion Iechyd

Ar gyfer rhai rhaglenni, efallai y bydd rhaid llenwi holiadur iechyd a dilyn gwiriadau sgrinio iechyd yn rhan o'r broses derbyn a chofrestru. Caiff ymgeiswyr wybod yn eu llythyr cynnig a yw gofynion iechyd o'r fath yn berthnasol.

Euogfarnau troseddol a'r gofyniad i'w datgelu

Rhaglenni nad oes angen Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cyfer

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal tuag ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr. Er mwyn sicrhau diogelwch cymuned y Brifysgol, anogir ymgeiswyr i'r Brifysgol i ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol nas treuliodd cyn gynted ag y bo modd. Ymdrinnir â phob datganiad o euogfarn ei yn gyfrinachol gan y Gwasanaethau Myfyrwyr. Gall ymgeiswyr drafod eu heuogfarn yn gyfrinachol gyda staff cymwys y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn gallu rhoi iddynt y cymorth perthnasol.

Rhaglenni y mae angen Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cyfer

Rhaid i ymgeiswyr sydd am gofrestru ar raglenni lle bydd gofyn iddynt weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed, ddatgelu pob euogfarn, gan gynnwys rhybuddion, cywiriadau, rhybuddion terfynol, gorchmynion rhwymo ac euogfarnau a dreuliodd. Caiff yr ymgeiswyr hyn wybod yn ystod cyfweiliadau, ac mewn llythyrau cynnig dilynol, y bydd gofyn iddynt gael tystysgrif datgeliad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cofrestru'n llawn yn fyfyrwr yn y Brifysgol a chyn y caniateir iddynt wneud unrhyw waith lle mae gofyn cysylltu â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaeth allanol 'GBG Online Disclosures' i brosesu ceisiadau DBS. Dywedir wrth ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig am le fel eu dewis pendant i wneud cais am Wiriad DBS trwy'r gwasanaeth ar-lein.

Argymhellwn yn gryf bod ymgeiswyr yn cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau'r DBS. Gwasanaeth tanysgrifio ar-lein yw'r Gwasanaeth Diweddarau sy'n caniatáu i'r rheiny sydd wedi tanysgrifio iddo sicrhau bod eu tystysgrif DBS yn gyfredol ac mae'n lleihau'r angen i wneud cais am dystysgrifau droeon wrth symud o un rôl i'r llall yn yr un gweithle. Bydd y Brifysgol yn gwirio Datgeliadau Manwl DBS o'u cymharu â Gwasanaeth Diweddarau'r DBS a bydd gofyn i'r ymgeisydd/myfyriwr wneud cais am dystysgrif DBS newydd os yw'r Gwasanaeth Diweddarau yn dangos bod gwybodaeth newydd ar gael ers i'r datgeliad gael ei roi, neu fod yr ymgeisydd/myfyriwr wedi gadael i'r cofrestrriad ddarod. Wrth dderbyn cynnig, bydd ymgeiswyr yn cydsynio ac yn cytuno ar y prosesau hyn. Y Brifysgol fydd yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â lle ar raglen astudio.

Rhaid i ymgeiswyr y'u ceir yn euog o dramgwydd troseddol ar ôl gwneud cais roi gwybod i'r Brifysgol ar unwaith. Gallai methu â datgan euogfarn droseddol arwain at wrthod cais, neu fod y Brifysgol yn tynnu cynnig lle yn ôl.

Ceir gwybodaeth bellach ym mholisi Derbyniadau'r Brifysgol sydd ar gael ar:

www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau

Bydd unrhyw ddatganiad o euogfarn, ac unrhyw wybodaeth ddilynol a ddatgelir mewn perthynas â'r datganiad, yn cael ei drin â sensitifwedd, ei gadw'n gwbl gyfrinachol, ei ddatgelu i aelod dynodedig staff y Brifysgol yn unig a'i reoli'n unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR 2016.

Bydd unrhyw unigolyn a geir yn euog o drosedd pan fo'n fyfyrwr yn y Brifysgol yn ddarostyngedig i Bolisi Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol a bydd rhaid iddynt ddatgelu'r euogfarn cyn gynted â phosibl. Bydd rhaid i fyfyrwyr sy'n parhau gadarnhau adeg ailgofrestru nad oes ganddynt euogfarn droseddol sydd heb ei datgan yn flaenorol i'r Brifysgol. Ymdrinnir â phob datganiad o euogfarn yn gyfrinachol gan y Gwasanaethau Myfyrwyr a gall ymgeiswyr a myfyrwyr drafod eu heuogfarn yn gyfrinachol gyda staff cymwys y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn gallu rhoi iddynt gymorth perthnasol.

Ymgeiswyr rhyngwladol y mae angen Fisa Myfyrwyr Haen 4 (Cyffredinol) ar eu cyfer

Er mwyn astudio yn Y Drindod Dewi Sant, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r amodau fisa a mewnfudo gofynnol gan Swyddfa Gartref y DU a ddiwedderir o bryd i'w gilydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration a thudalennau rhyngwladol gwefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/international/applications-and-admissions/immigration-and-visas/

Cymorth i Ymgeiswyr sydd ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Penodol

Anogir yr ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw anabledd cyn gynted ag y bo modd yn ystod y broses ymgeisio a chydol eu cyfnod yn y Brifysgol. Anogir ymgeiswyr sydd wedi datgelu bod ganddynt anabledd ar eu ffurflen gais i gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Ysgol Academaidd i drafod eu gofynion cymorth.

Gyda chaniatâd penodol yr ymgeisydd, gellir rhannu gwybodaeth a ddatgelir a'i defnyddio i benderfynu ar addasiadau rhesymol a mesurau adferol. Dylid gwneud myfyrwyr sy'n gwrthod rhannu gwybodaeth yn ymwybodol y gallai hyn gyfyngu ar allu'r Brifysgol i sicrhau y darperir trefniadau cymorth priodol ac amserol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/ Unwaith y bydd ymgeisydd wedi cadarnhau derbyniad 'Pendant' i gynnig, trefnir bod Ffurflen Ymholiad i Anghenion Cymorth ar gael i'r ymgeisydd i'w galluogi i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch eu hanghenion cymorth.

Amddiffyn a phrosesu data

Daw'r wybodaeth ar y ffurflen gais yn rhan o gofnod y myfyriwr. Trwy ymrwymo wrth contract â'r Brifysgol, mae'r ymgeisydd yn rhoi'r hawl i'r Brifysgol gadw a phrosesu data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016. I weld polisi'r Brifysgol ar ddiogelu data, ewch i: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau/

Llety

Mae gan gampysau Caerfyrddin, Llambod ac Abertawe Neuaddau Preswyl neu lety myfyrwyr, a llawer o'r ystafelloedd hyn wedi eu blaenoriaethu ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf. Caiff lleoedd eu dyrannu gan y Swyddfa Llety ar sail y cyntaf i'r felin.

Oherwydd y galw uchel am lety Prifysgol, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol na fydd modd, o bosibl, i'r holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf gael llety mewn Neuadd Breswyl felly mae'n bosibl y bydd angen llety rhent preifat. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros y llety preifat hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am opsiynau llety myfyrwyr ar bob campws a sut i wneud cais, ewch i: www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/

Mae'r ffioedd llety i'w talu'n llawn bob tymor. I gael gwybodaeth am y ffioedd llety perthnasol ar bob campws, ewch i'r tudalennau Llety gwefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/

Mae gofyn i fyfyrwyr sy'n derbyn cynnig llety yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol lynu wrth y telerau a'r amodau fel y'u pennir gan y Brifysgol. Gellir dod o hyd i'r rhain ar wefan y Brifysgol yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/caerfyrddin/. Atgoffir myfyrwyr i gyfeirio at delerau ac amodau gydol cyfnod y contract.

Ffioedd a Chyllid

Gellir cynyddu ffioedd tiwtora yn unol â chwyddiant. Fel arfer codir ffioedd rhaglenni ar sail flynyddol. I gael gwybodaeth fanwl am ffioedd, ewch i'r tudalennau cyllid ar wefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/cyllid-myfyrwyr/ ac yn ei Chynllun Ffioedd a Mynediad: www.uwtsd.ac.uk/cy/cyllid/cynllun-ffioedd-a-mynediad/

Gallai costau ychwanegol ddod i ran ymgeiswyr sy'n gysylltiedig â'u rhaglen ddewisol. Gallai'r costau hyn gynnwys cost ail-wneud cyfnodau astudio, estyniadau i'r cyfnod astudio a ddynodwyd, ffioedd ailgyflwyno, treuliau teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y rhaglen a threuliau amrywiol eraill megis costau teithiau maes, lleoliadau, llyfrau ac offer. Gellir cael gwybodaeth am y costau ychwanegol hyn ar y tudalennau penodol i'r pwnc ar gyfer pob Cyfadran ar wefan y Brifysgol yn www.uwtsd.ac.uk/cy/cyrsiau/. Dylai ymgeiswyr gymryd y costau ychwanegol hyn i ystyriaeth cyn derbyn cynnig lle.

Bydd angen i fyfyrwyr o Gymru sydd am wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr gofrestru gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru yn: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/. Dylai ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau erbyn dechrau Mai yn y flwyddyn yr hoffent ddechrau eu hastudiaethau os dymunant gael y taliad cyntaf yn barod ar gyfer dechrau'r tymor.

Dylai myfyrwyr sy'n byw yn Lloegr ac sydd am wneud cais i gyllid myfyrwyr wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr gyfeirio at y wybodaeth sydd ar gael yn: www.gov.uk/studentfinance.

Bydd angen i fyfyrwyr sy'n byw yn yr UE ac sydd am wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr gofrestru gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru yn: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/. Argymhellir y gwneir ceisiadau ymhen 9 mis i ddyddiad dechrau'r cwrs.

Dylai myfyrwyr o Ogledd Iwerddon sydd am wneud cais i gyllid myfyrwyr wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr gyfeirio at y wybodaeth sydd ar gael yn: www.studentfinancenl.co.uk.

Dylai myfyrwyr o'r Alban sydd am wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr wneud cais ar gyfer cyllid myfyrwyr gyfeirio at y wybodaeth sydd ar gael yma: www.saas.gov.uk.

Os yw'r ffioedd i'w talu yn rhannol, neu'n llawn, gan noddwr neu asiantaeth arall, rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol o hyn adeg cofrestru.

Cyfrifoldeb y myfyrwr yw sicrhau y telir unrhyw ffioedd a threuliau mewn perthynas â'i r(h)aglen yn llawn ac yn brydlon.

Mae gan Wasanaethau Myfyrwyr ddulliau yn eu lle i helpu myfyrwyr i reoli eu harian. Mae manylion pellach ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/cymorth-ariannol/

I gael gwybodaeth am Fwrsariaethau ac Ysgoloriaethau'r Drindod Dewi Sant, ewch i: www.uwtsd.ac.uk/cy/bwrsariaethau/

Dileu cynnig lle

Ar ôl derbyn cynnig o le, caiff ymgeiswyr 14 o ddiwrnodau ar gyfer gwrthod eu cynnig os newidiant eu meddwl. Caiff ymgeiswyr sydd am ddileu eu lle lenwi a dychwelyd y Ffurflen Ddileu sydd ar gael yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/amodau/

Cofrestru

Gwahoddir i Ymgeiswyr i'r Brifysgol gofrestru ar-lein pan fydd statws eu cais wedi mynd yn un diamod pendant. Rhaid darllen y telerau ac amodau cofrestru, y mae'r manylion i'w cael ar y Datganiad Cofrestru sydd i'w gweld yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-proffesiynol/y-gofrestrfa/cofrestru/datganiadau-myfyrwyr/ a chytuno ar y telerau hyn.

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu prawf adnabod ar ffurf tystysgrif geni, pasbort neu drwydded yrru; a thystiolaeth foddhaol o'u cymwysterau ar ffurf trawsgrifiad neu dystysgrif wreiddiol, neu gopi a ardystiwyd gan y sefydliad cyhoeddi.

Y Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad, Turnitin

Mae llên-ladrad yn drosedd ddifrifol y dymuna'r Brifysgol ei hatal.

Yn rhan o'r broses gofrestru, bydd gofyn i ymgeiswyr lofnodi datganiad sy'n rhoi'r hawl i wirio'r gwaith o'i gymharu â'r gronfa ddata'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad Addysg Uwch y DU, Turnitin.

Gwasanaeth a gymeradwyir gan JISC yw'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad, Turnitin. Mae'n chwilio'r we fyd-eang a chronfeydd data helaeth o ddeunydd cyfeiriol a chynnwys a gyflwynwyd gan fyfyrwyr eraill, i weld a oes unrhyw waith wedi ei ddyblygu. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn:

www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/student-experience/Gwasanaeth-Canfod-Llen-Ladrad.pdf

Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu a Thechnoleg a Systemau Gwybodaeth

Darperir gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr trwy'r tudalennau gwefan canlynol:

Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu: www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/

Technoleg a Systemau Gwybodaeth: www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-proffesiynol/technoleg-gwybodaeth-a-systemau/

Mae'r rheolau ar gyfer defnyddio TG yn y Brifysgol i'w weld ym Mholisi Defnydd Derbyniol Gwasanaethau Gwybodaeth (AUP). Mae pob defnyddiwr yn gyfrifol am ddarllen a chydymffurfio â chynnwys y dogfennau hyn. Os torrir unrhyw ran o'r polisi yna gall y Brifysgol gymryd camau disgyblu a/neu gyfreithiol yn erbyn y troseddwr. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: www.uwtsd.ac.uk/its-policies/

I weld y Rheoliadau ynghylch Llyfrgelloedd Y Drindod Dewi Sant ewch i:

www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/llawlyfr-llyfrgell/rheolaur-llyfrgell/

Apeliadau a chwynion

Gall fod achlysuron pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am apêl (adolygiad o'u cais), neu'n gwneud cwyn am y broses dderbyn. Mae'r trefniadau yn eu lle i ymgeiswyr gael adborth am gais aflwyddiannus, er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad dewis neu gwyno am y broses dderbyn wedi eu nodi yn nogfen Y Drindod Dewi Sant. Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Adborth, Apeliadau a Chwynion sydd i'w chael o dan y tudalennau 'Sut i ymgeisio' ar wefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau/

Mae gan y Brifysgol hefyd weithdrefnau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ac sy'n gweithio gwneud cwyn neu gyflwyno apêl academaidd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhennod 13 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ac yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

Ymdrinnir â chwynion gan fyfyrwyr mewn sefydliadau partner gan y partner yn y lle cyntaf, ond gall yr achwynydd wneud cais am adolygiad gan y Brifysgol os nad yw'n fodlon ar y canlyniad.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch y wybodaeth a geir yn y ddogfen hon at y Tîm Derbyniadau yn y Gofrestrfa trwy'r e-bost: admissions@uwtsd.ac.uk

Dylai ymgeiswyr ar gyfer Campws Llundain anfon unrhyw ymholiadau trwy'r e-bost i: londonadmissions@uwtsd.ac.uk